




Ministry
of Justice

Ailystyried Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: Creu system newydd ac agored





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ailystyried Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: Creu system newydd ac agored

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder trwy
Orchymyn Ei Mawrhydi

Ebrill 2018



© **Hawlfraint y goron 2018**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
paroleboardreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0359-1

CCS0418522016 04/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

At:	Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at bawb sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Bwrdd Parôl yn cael ei redeg, ac a ddylai penderfyniadau'r Bwrdd fod yn agored i broses ailystyried pan fydd seiliau penodol yn cael eu bodloni.
Hyd:	Rhwng [30/04/18] a [30/07/18]
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:	<p>Tîm Adolygu Rheolau'r Bwrdd Parôl Post Point 4.18 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ</p> <p>Ffôn: 01633 630 942 E-bost: paroleboardreview@justice.gov.uk</p>
Sut mae ymateb:	<p>Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Gorffennaf 2018 i:</p> <p>Tîm Adolygu Rheolau'r Bwrdd Parôl Post Point 4.18 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ</p> <p>E-bost: paroleboardreview@justice.gov.uk</p>
Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno'ch safbwyntiau:	Ynghyd â'r ymarfer ymgynghori hwn ceir arolwg ar lein sydd ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions
Papur ymateb:	Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn erbyn yr hydref 2018 yn: https://consult.justice.gov.uk/

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Cyflwyniad	4
Cefndir	4
Y Sefyllfa Bresennol	5
Cwmpas yr ymgynghoriad	6
Y Cynnig	6
Holiadur	15
Gwybodaeth amdanoch chi	16
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	17
Egwyddorion ymgynghori	18

Crynodeb gweithredol

Ym mis Ionawr 2018, lansiodd y Llywodraeth Adolygiad o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl (yr Adolygiad), gan ganolbwyntio ar y pedwar maes gwaith canlynol:

- a. y gyfraith, y polisïau, y canllawiau a'r arferion sy'n gysylltiedig â heriau i broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl,
- b. pa mor dryloyw yw proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl,
- c. rôl dioddefwyr yng ngwrandawiadau'r Bwrdd Parôl, a
- d. trefniadau ar gyfer cyfathrebu â dioddefwyr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ganlyniad uniongyrchol i Adolygiad y Llywodraeth, ac yn ystyried manylion y system newydd arfaethedig i alluogi ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl.

Roedd llawer o bobl a gymerodd ran yn yr Adolygiad yn credu y dylid gallu ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl mewn rhai amgylchiadau, ac rydym yn cytuno â hwy. Byddai hyn yn golygu bod pobl yn gallu mynegi pryderon am benderfyniad heb orfod lansio adolygiad barnwrol, sy'n dipyn o faich. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd Parôl i ystyried penderfyniadau gwallus, ac ailgyflwyno achos gerbron y panel os bydd angen.

Ar ôl ystyried yn ofalus mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai mecanwaith o'r fath fod yn rhan o'r strwythurau presennol, ac felly'n rhan o'r Bwrdd Parôl, ond bod angen iddi fod yn fecanwaith ar wahân sy'n cael ei hamddiffyn yn briodol. Yn y bôn, bydd hyn yn golygu bod adain ar wahân o'r Bwrdd Parôl yn edrych ar achosion ailystyried. Bydd hynny'n golygu bod modd gwneud newidiadau'n gyflym, a sicrhau newid arwyddocaol. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer mecanwaith adolygu allanol, ac rydym yn credu y gallwn ni – gan weithio gyda'r Bwrdd Parôl – gyflwyno mecanwaith o fewn y strwythurau presennol drwy newid Rheolau'r Bwrdd Parôl.

Pan fydd pryderon dilys am benderfyniad cychwynnol, mae'n bwysig bod y broses ailystyried ddilynol yn agored ac yn dryloyw. Rydym yn rhagweld y byddai'r mecanwaith newydd dan arweiniad barnwr, ac mor agored a thryloyw â phosib. Byddai hyn yn cynnwys gwneud gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd, a rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd am aelodau'r panel sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.

O ystyried natur dechnegol mecanwaith o'r fath, ei heffaith ar y system ehangach a'r budd sylweddol i'r cyhoedd, rydym yn ymgynghori ar fanylion y mecanwaith arfaethedig er mwyn llywio ei ddatblygiad.

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried:

- a. y mathau o benderfyniadau a fydd yn cael eu hailystyried,
- b. pwy sy'n gallu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried,
- c. y trothwy y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i benderfyniad gael ei ailystyried, a
- d. sut gallwn ni sicrhau bod y broses ailystyried yn dryloyw, gan wneud yn siŵr hefyd bod digon o fesurau diogelu ar waith i amddiffyn aelodau'r panel, dioddefwyr ac eraill.

Cyflwyniad

Cefndir

1. Cafodd y Bwrdd Parôl ei sefydlu yn 1967 i gynghori'r Ysgrifennydd Cartref a oedd, bryd hynny, yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau carcharorion ar drwydded a'u galw'n ôl i'r carchar. Mae'r Bwrdd Parôl wedi esblygu ers hynny, yn bennaf mewn ymateb i gyfraith achosion, o fod yn gorff cynghori i gorff sy'n annibynnol, ac sydd â swyddogaeth led-farnwrol.
2. Erbyn hyn mae'r Bwrdd Parôl wedi'i sefydlu fel corff corfforaethol, dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae ganddo statws corff anadrannol gweithredol, felly er bod ei gyllid yn dod gan y llywodraeth ganolog drwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mae ei waith o ddydd i ddydd yn annibynnol. Fodd bynnag, mae Deddf 2003 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder benodi aelodau'r Bwrdd Parôl, a gwneud rheolau ar gyfer y ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu drwy Reolau'r Bwrdd Parôl.¹ Cafodd y diwygiadau diweddaraf i Reolau'r Bwrdd Parôl eu gwneud yn 2016.
3. Mae'r Bwrdd Parôl yn:
 - a. gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau carcharorion dan ddedfryd amhenodol, a rhai carcharorion dan ddedfryd benodol, cyn y dyddiad rhyddhau'n awtomatig
 - b. gwneud penderfyniadau ynghylch amodau trwydded ac unrhyw newidiadau i'r amodau yn sgil hynny, pan fydd yn gyfrifol am ryddhau'r carcharor yn wreiddiol;
 - c. adolygu'r amgylchiadau lle mae pob carcharor dan ddedfryd amhenodol a rhai carcharorion dan ddedfryd benodol wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar am aildroseddu neu am honiad eu bod wedi aildroseddu, neu am dorri amodau trwydded yn ystod cyfnod goruchwyllo'r gwasanaeth prawf, ac yn penderfynu a ddylid ail-ryddhau'r carcharorion hyn. Mae'r swyddogaeth hon yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Parôl wneud canfyddiadau ffeithiol am amgylchiadau'r galw'n ôl, ac;
 - d. gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer trosglwyddo carcharorion sydd wedi cael dedfryd amhenodol o garchar caeedig (diogelwch uchel neu ganolig) i garchar agored (diogelwch isel), ac achosion rhyddhau tosturiol ar gyfer troseddwr dan ddedfryd amhenodol.
4. Ni all y Bwrdd Parôl wneud y canlynol:
 - a. Gwneud asesiadau ynghylch a oedd y ddedfryd wreiddiol a roddwyd gan y llys yn addas a/neu yn briodol.
 - b. Gwneud asesiad i ryddhau yn seiliedig ar y risg sy'n gysylltiedig â'r troseddwr yn unig.
5. Ym mis Ionawr 2018, lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol Adolygiad o'r gyfraith, y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau parôl, gan ganolbwyntio ar y pedwar maes gwaith canlynol:
 - a. y gyfraith, y polisiau, y canllawiau a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r heriau i broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl,
 - b. pa mor dryloyw yw proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl,
 - c. rôl dioddefwyr yng ngwrandawiadau'r Bwrdd Parôl, ac

¹ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1041/contents/made>.

- d. trefniadau ar gyfer cyfathrebu â dioddefwyr.²
6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i'r argymhellion sy'n deillio o'r rhan o'r Adolygiad sy'n canolbwyntio ar y gyfraith, y polisiâu, y canllawiau a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r heriau i broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl.

Y Sefyllfa Bresennol

7. Fel arfer, ar ôl i'r Bwrdd Parôl wneud penderfyniad, bydd y penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni all y Bwrdd ei hun ailedrych arno. Felly, y prif ffordd i ailystyried penderfyniad y Bwrdd Parôl yw trwy adolygiad barnwrol.
8. Hefyd, mae gan y Bwrdd Parôl y pŵer i ailystyried achos mewn amgylchiadau prin iawn.

Adolygiad Barnwrol

9. Mae'n bosib defnyddio'r broses adolygiad barnwrol i herio'r rhan fwyaf o benderfyniadau a wneir gan gorff cyhoeddus.
10. Dyma'r seiliau cyffredinol ar gyfer adolygiad barnwrol:
- anghyfreithlondeb penderfyniad
 - afresymoldeb penderfyniad
 - annhegwch gweithdrefnol yn y broses gwneud penderfyniadau³
11. Gall unrhyw un wneud cais am adolygiad barnwrol os gall ddarbwyllio'r llys bod sail o'r fath yn bodoli a dangos i'r llys bod ganddynt ddigon o achos i wneud hynny (budd yn y canlyniad).
12. Er mwyn dwyn achos ar gyfer adolygiad barnwrol, bydd gofyn bod yr ymgeisydd wedi dilyn pob llwybr apelio arall. Yng nghyd-destun y Bwrdd Parôl, os oes gan troseddwr gyfle i wneud cais am wrandawriad llafar, dylid gwneud y cais hwnnw'n gyntaf.
13. I rai partion, mae'r diffyg tryloywder cyhoeddus o ran penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn gallu ei gwneud yn anodd dwyn achos, gan ei bod yn anodd cael gafael ar yr wybodaeth y gallent ei defnyddio fel sail i'w dadleuon dros gael adolygiad barnwrol.
14. Yr Achos Worboys yw'r enghraifft gyntaf o unrhyw un, heblaw am y troseddwr, yn dwyn achos llwyddiannus mewn adolygiad barnwrol yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Parôl, a dyma'r tro cyntaf i ddioddefwr gyflwyno her.

Ailgyfeirio

15. Cafodd pŵer y Bwrdd Parôl i ailedrych ar rai penderfyniadau ei sefydlu drwy gyfraith achosion ac mae'n berthnasol i benderfyniadau ynghylch derbyn neu wrthod cais unigolyn i gael ei ryddhau ar ôl iddo ddod yn gymwys ar gyfer parôl yn unig.
16. Cafodd y sail dros adael i'r Bwrdd Parôl ailedrych ar un o'i benderfyniadau ei sefydlu mewn cyfraith achosion yn achos Robinson yn 1999, a dyma'r sail dros wneud hynny:
- Roedd y penderfyniad yn wallus (e.e. yn seiliedig ar wybodaeth anghywir arwyddocaol); neu
 - Mae'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers hynny (e.e. mae lefel risg troseddwr wedi cynyddu'n sylweddol, neu mae rhan allweddol o'r cynllun rhyddhau wedi mynd i'r gwellt).⁴

²https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674955/pb-review-terms-of-reference.pdf.

³ <https://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/judicial-review/>.

17. Er enghraifft, pan fydd y Bwrdd Parôl wedi ystyried gwybodaeth am y troseddwr anghywir, neu os oes newid sylfaenol wedi bod i'r cynlluniau ar gyfer rhyddhau troseddwr, e.e. efallai ni all y Safle Cymeradwy yr oedd y troseddwr i fod i gael ei ryddhau iddo ei dderbyn mwyach.
18. Mae'r sail dros adael i'r Bwrdd Parôl ailedrych ar ei benderfyniad drwy'r ailgyfeirio'r achos yn gyfyngedig dros ben, ac mae'r trothwy i fodloni'r sail hon yn uchel iawn. Mewn achosion eraill, pan fydd y Bwrdd Parôl wedi gwneud ei benderfyniad, bydd yn derfynol ac ni fydd modd ailedrych arno.

Cwmpas yr ymgynghoriad

19. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y rheini sydd â diddordeb yn y ffordd y mae Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr yn gwneud penderfyniadau. Mae'r papur hwn yn ystyried ac yn casglu barn am y paramedrau a gynigir ar gyfer y broses ailystyried arfaethedig a'r ffordd y bydd y broses honno'n gweithio, gan gynnwys:
 - a. pa fathau o benderfyniadau y dylid eu hailystyried,
 - b. pwy ddylai allu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried,
 - c. ar ba sail y dylid ailystyried penderfyniad, a
 - d. sut gallwn ni sicrhau bod y broses yn dryloyw, gan wneud yn siŵr hefyd bod digon o fesurau diogelu i amddiffyn aelodau'r panel, dioddefwyr ac eraill.
20. Nid yw'r ddogfen hon yn rhoi sylw i'r materion eraill a gafodd eu hystyried yn Adolygiad y Llywodraeth o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl, gan gynnwys:
 - a. pa mor dryloyw yw proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn gyffredinol,
 - b. rôl dioddefwyr yng ngwrandawriadau'r Bwrdd Parôl, a
 - c. trefniadau ar gyfer cyfathrebu â dioddefwyr.
21. Fodd bynnag, mae rhyngddibyniaethau rhwng yr ymgynghoriad hwn ar gynllunio proses ailystyried a materion eraill a ystyriwyd fel rhan o adolygiad ehangach y Llywodraeth o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Mae hyn yn cynnwys tryloywder. Er enghraifft, trwy roi rhagor o wybodaeth i ddioddefwyr a'r cyhoedd am y rhesymau sy'n sail i benderfyniadau'r Bwrdd Parôl, mae'n bosib y byddant yn deall y sefyllfa'n well ac yn gallu mynd ati'n well i gyfleu'r sail angenrheidiol ar gyfer lansio cais i benderfyniad gael ei ailystyried. Mae'r materion sy'n ymwneud â thryloywder yn cael eu hystyried yn fanylach ym mharagraffau 55-58.
22. Mae Asesiad o'r Effaith a Datganiad Cydraddoldeb wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Rydym wedi gofyn cwestiynau perthnasol am gydraddoldeb ar ddiwedd y papur hwn. Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu newid i adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad.

Y Cynnig

23. Fel yr eglurwyd, mae pwerau presennol y Bwrdd Parôl i ailystyried achos yn gyfyngedig iawn o ran pa bartïon all wneud cais i ailystyried. Mae'r sail dros ailgyfeirio achos hefyd yn gyfyngedig dros ben. Felly, os nad oes modd bodloni'r trothwy hwn, does dim opsiwn arall heblaw am adolygiad barnwrol.
24. Byddai mecanwaith newydd ar gyfer ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, cyn i'r achos gyrraedd adolygiad barnwrol, yn:
 - a. golygu bod proses sydd wedi'i chynllunio'n arbennig yn cael ei chreu er mwyn ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl;
 - b. golygu bod modd ailystyried penderfyniadau cyn unrhyw adolygiad barnwrol, ac
 - c. yn sicrhau bod y system yn fwy tryloyw.
25. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid gallu ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl mewn rhai amgylchiadau: Byddai hyn yn golygu bod pobl yn gallu mynegi pryderon am benderfyniad heb orfod lansio adolygiad barnwrol, sy'n dasg lethol. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd Parôl i ystyried penderfyniadau gwallus, ac ailgyflwyno achos gerbron y panel os bydd angen. Roedd llawer o bobl yr ymgysylltwyd â hwy yn cefnogi'r angen am fecanwaith ailystyried cyn adolygiad barnwrol.
26. Ar ôl ystyried yn ofalus mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai mecanwaith o'r fath fod yn rhan o'r strwythurau presennol, ac felly'n rhan o'r Bwrdd Parôl, ond bod angen iddi fod yn fecanwaith ar wahân sy'n cael ei hamddiffyn yn briodol. Yn y bôn, bydd hyn yn golygu bod adain ar wahân o'r Bwrdd Parôl yn edrych ar achosion ailystyried. Bydd hynny'n golygu bod modd gwneud newidiadau'n gyflym, a sicrhau newid arwyddocaol. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer mecanwaith adolygu allanol, ac rydym yn credu y gallwn ni - gan weithio gyda'r Bwrdd Parôl - gyflwyno mecanwaith o fewn y strwythurau presennol drwy newid Rheolau'r Bwrdd Parôl.
27. Rydym hefyd yn rhagweld y byddai'r mecanwaith newydd dan arweiniad barnwr, gyda gwrandawriadau sy'n agored i'r cyhoedd (pan fydd gwrandawriad llafar yn cael ei gynnal) a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am aelodau'r panel sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.
28. Am y rhesymau hyn, rydym yn bwriadu datblygu mecanwaith ailystyried newydd, a gaiff ei sefydlu drwy Reolau'r Bwrdd Parôl. Rydym wedi llunio cynllun enghreifftiol a fyddai'n gweithio fel y ganlyn:
 - a. Mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried achos ar sail y papurau neu'n cynnal gwrandawriad llafar ac yn gwneud 'penderfyniad dros dro' i ryddhau carcharor, neu i beidio â'i ryddhau (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).
 - b. Mae'r gwaith rhyddhau yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer ar gyfer y penderfyniad 'dros dro' hwn i sicrhau na fydd oedi cyn rhyddhau, sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cael cyfnod i gyflwyno cais i ailystyried.
 - c. Bydd penderfyniad yn dal yn 'dros dro' nes bydd yn benderfyniad terfynol. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch hyd y cyfnod pan fydd modd herio'r penderfyniad cychwynnol, ond dylai fod yn gymesur er mwyn cyfyngu'r effaith ar bawb sy'n gallu cyflwyno her a'r rhai y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt.
 - d. Pan fydd y cyfnod hwn yn dod i ben, bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried yn un 'terfynol', a bydd y broses ryddhau'n cael ei rhoi ar waith. Ni dderbynnir unrhyw gais i'r penderfyniad gael ei ailystyried ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben.
 - e. Mae modd cyflwyno ceisiadau i'r Bwrdd Parôl i benderfyniad gael ei ailystyried cyn i benderfyniad ddod yn derfynol.

- f. Bydd aelod o'r Bwrdd Parôl (rhagwelir mai aelod barnwrol fydd hwn) yn asesu a oes unrhyw gais ailystyried yn bodloni'r trothwy gofynnol ar y sail a gytunwyd ac o fewn yr amserlen a gytunwyd (mae'r trothwy yn cael ei ystyried ym mharagraffau 46-54 isod).
 - g. Pan fydd cais yn bodloni'r trothwy, bydd yr aelod barnwrol yn penderfynu ar y camau nesaf. Os oes rhywbeth sylfaenol yn y broses o ystyried yr achos wedi arwain at benderfyniad gwallus, bydd yr achos yn cael ei ailystyried yn y ffordd fwyaf priodol. Gallai hyn arwain at y canlynol:
 - i. ailgynnull y panel blaenorol, neu
 - ii. ail-gynnal y gwrandawriad gyda phanel newydd, naill ai fel gwrandawriad papur neu fel gwrandawriad llafar. O ran yr olaf o'r ddau, byddem yn disgwyl iddo gael ei gadeirio gan aelod barnwrol.
 - h. Os bydd gwrandawriad llafar yn cael ei gynnal, rydym yn rhagweld y byddai'n agored i'r cyhoedd, ac y byddai gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am aelodau'r panel sy'n gwneud penderfyniadau ailystyried.
29. Rydym ni'n cynnig bod y mecanwaith ailystyried hwn yn cael ei chynnal o fewn y Bwrdd Parôl, ond gan adain arbenigol sydd ar wahân.
30. Bydd yn rhaid i garcharorion ddangos eu bod wedi dilyn pob llwybr arall ar gyfer gwneud sylwadau i'r Bwrdd cyn troi at y broses ailystyried, er enghraifft drwy ofyn am wrandawriad llafar pan fyddant am herio penderfyniad a wnaed ar sail y papurau.

Y mathau o benderfyniadau a fydd yn cael eu hailystyried

31. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Parôl:
- a. yn gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau carcharorion dan ddedfryd amhenodol, a rhai carcharorion dan ddedfryd benodol, cyn y dyddiad rhyddhau awtomatig (rhai dedfrydau estynedig a dedfrydau rhyddhau amodol yn ôl disgresiwn), ac ar gyfer pob troseddwr dan ddedfryd amhenodol, a rhai troseddwyr dan ddedfryd benodol, sy'n cael eu galw'n ôl;
 - b. yn gwneud penderfyniadau ynghylch amodau trwydded ac unrhyw newidiadau i'r amodau yn sgil hynny, pan fydd yn gyfrifol am ryddhau'r carcharor yn wreiddiol; ac
 - c. yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer trosglwyddo carcharorion dan ddedfryd amhenodol o garchar caeedig i garchar agored, ac achosion rhyddhau tosturiol ar gyfer troseddwyr dan ddedfryd amhenodol.
32. Rydym yn cynnig bod y broses ailystyried yn berthnasol i benderfyniadau pan fydd y Bwrdd Parôl wedi cytuno neu wrthod rhyddhau'r rheini sydd wedi cyrraedd y rhan o'u dedfryd sy'n golygu eu bod yn gymwys ar gyfer parôl. Byddai hyn yn cynnwys penderfyniadau galw'n ôl.
33. Mae mecanweithiau eraill ar gael i newid neu herio penderfyniadau, argymhellion neu ddyfarniadau eraill y Bwrdd Parôl:
- a. Mae penderfyniadau ynghylch amodau trwydded ar gyfer achosion sy'n rhan o gylch gwaith y Bwrdd Parôl yn gallu cael eu newid drwy wneud cais i'r Bwrdd Parôl. Gall y troseddwr, yr Ysgrifennydd Gwladol neu ddiodefwyr gyflwyno'r cais hwn ar unrhyw adeg - gan gynnwys ar ôl i'r troseddwr gael ei ryddhau.
 - b. Mae argymhellion a wneir ynghylch trosglwyddo i sefydliadau categori is yn argymhellion ar gyfer rheoli unigolion ac nid penderfyniadau ynghylch eu rhyddid. Yr Ysgrifennydd Gwladol neu ei gynrychiolwyr sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch categori a lleoliad carcharorion.

- c. Mae penderfyniadau gweithdrefnol ynghylch a ddylai achos symud ymlaen i wrandawriad llafar, neu a ddylid oedi neu ohirio achos, yn gallu cael eu haddasu gan y Bwrdd Parôl.
34. Dim ond penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Parôl i ryddhau carcharor, neu i beidio â'i ryddhau, sydd heb broses ailystyried ar hyn o bryd, ar wahân i gynnal adolygiad barnwrol.
35. Nid oes proses fewnol benodol a chadarn ar gael ar hyn o bryd i ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl i ryddhau carcharor, neu i beidio â'i ryddhau. Gellir dadlau mai'r penderfyniadau hyn yw'r rhai mwyaf difrifol, ac wrth ystyried eu heffaith ar ryddid unigolion ac ar ddiogelwch y cyhoedd, rydym ni o'r farn ei bod hi'n addas cynnal proses graffu deg a phriodol ar gyfer y penderfyniadau hyn a bod modd eu herio'n briodol.
36. Hefyd, mae'n bosib y byddai ailystyried yn awtomatig o fudd mawr i'r cyhoedd mewn rhai achosion. Yn yr achosion hynny, ni fyddai angen gwneud cais - byddai'r achos yn cael ei gyfeirio'n awtomatig i'w ailystyried. Er enghraifft, byddai modd gwneud hynny pan fydd carcharor yn cael ei ryddhau'n uniongyrchol o amodau caeedig, yn hytrach na'i fod yn symud ymlaen o amodau caeedig i amodau agored ac yna'n cael ei ryddhau, neu mewn achosion â phroffil uchel iawn
37. Mae'n bwysig bod gennym ryw fath o gyfyngiad ar y mathau o benderfyniadau a fydd yn rhan o broses ailystyried newydd, gan y bydd cwmpas y mecanwaith hefyd yn effeithio ar:
- d. pa mor brydlon mae achosion yn cael eu prosesu, gydag oedi posib cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch rhyddhau,
 - e. gallai achosion y Bwrdd Parôl ôl-gronni wrth iddo reoli unrhyw geisiadau ailystyried,
 - f. lleoedd mewn carchardai, a rheoli'r boblogaeth, wrth i'r gwaith o brosesu achosion achosi oedi.
38. Byddai hefyd yn bosib cyfyngu'r mecanwaith i droseddau penodol neu i hyd dedfrydau penodol, pan fydd y gallu i ailystyried penderfyniadau yn fwy buddiol i'r cyhoedd.
39. Os mai dim ond y penderfyniadau hynny sy'n ystyried cymeradwyo neu wrthod cais rhyddhau fydd yn gymwys ar gyfer y mecanwaith ailystyried, bydd effeithiau'r uchod yn gymesur a bydd modd eu rheoli.
40. Byddai'r dull hwn yn ein galluogi i sicrhau bod y broses ailystyried yn canolbwyntio'n llwyr ar y penderfyniadau hynny sy'n effeithio ar ryddid troseddwyr ar unwaith, gan alluogi'r Bwrdd Parôl i symud achosion ymlaen yn gyflym ac yn bendant.

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylai penderfyniadau'r Bwrdd Parôl i ryddhau carcharor, neu i atal carcharor rhag cael ei ryddhau, fod yn rhan o'r mecanwaith ailystyried arfaethedig?

Pwy ddylai allu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried?

41. Mae'r mecanweithiau presennol ar gyfer adolygu penderfyniadau ar gael i'r unigolion canlynol:
 - a. **Ailgyfeirio** - nid yw'r mecanwaith hwn ar gael i ddiodefwyr, y cyfryngau na'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae'n gyfyngedig iawn ym mhob achos.
 - b. **Adolygiad barnwrol** - gall unrhyw berson wneud cais am adolygiad barnwrol os yw'n gallu darbwyllo'r llys bod ganddo 'fudd digonol' yn y mater.
42. Yn ôl ein dadansoddiad o awdurdodaethau rhyngwladol cymaradwy, yng Nghanada, Seland Newydd a'r taleithiau yn Awstralia a gafodd eu harchwilio, dim ond y troseddwr sy'n gallu gwneud cais am adolygiad neu apelio yn erbyn penderfyniad. Yn yr awdurdodaethau hynny, mae proses debyg i adolygiad barnwrol hefyd ar gael fel arfer.
43. Er ei bod yn bwysig bod y Bwrdd Parôl yn gallu ymdopi â'r broses newydd, rydym yn cydnabod bod penderfyniadau'r Bwrdd Parôl o fudd sylweddol i'r cyhoedd, yn enwedig o ran penderfyniadau i ryddhau neu i beidio â rhyddhau unigolyn. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd system fwy tryloyw yn galluogi pobl eraill i wneud sylwadau mwy gwybodus am benderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Hefyd mae'n bwysig bod y system cyfiawnder troseddol, a'r broses gysylltiedig o wneud penderfyniadau, yn cael eu cynnal mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosib.
44. Mae amryw o opsiynau ar gael o ran pwy sy'n gallu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried. Un opsiwn yw mabwysiadu dull agored ar gyfer pwy all gyflwyno cais ailystyried. Bydd hyn yn golygu bod unrhyw unigolyn sy'n credu bod penderfyniad yn bodloni'r trothwy ar gyfer ailystyried yn gallu cyflwyno cais i gychwyn y broses. Nid yw'n golygu y byddai'r unigolyn yn dod yn barti yn yr achos. Opsiwn arall yw cyfyngu'r rheini sy'n gallu gwneud ceisiadau i bartïon yr achos - y troseddwr, y Bwrdd Parôl a'r Ysgrifennydd Gwladol. Fe allech gynnwys y diodefwyr, er nad ydynt yn barti uniongyrchol yn achosion y Bwrdd Parôl.
45. Fel y disgrifiwyd uchod, yna bydd rhaid i'r cais fodloni archwiliad trothwy er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r sail dros ailystyried. Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal gan adain ailystyried ar wahân o fewn y Bwrdd Parôl.

Cwestiwn 2

Pa unigolion neu grwpiau ddylai allu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried?

Ar ba sail y dylid ailystyried penderfyniad?

46. Mae'r gymuned gyfreithiol yn llwyr ymwybodol o'r sail bresennol dros herio penderfyniadau'r Bwrdd Parôl mewn adolygiad barnwrol, ac yn derbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i her fodloni trothwy uchel er mwyn llwyddo.
47. Gellid hefyd ailystyried "ar sail teilyngdod". Mae'r sail hon yn caniatáu dull ehangach o ran ailystyried, ac mae'n bosib y byddai'n galluogi'r rheini sy'n apelio i gyflwyno cais ailystyried oherwydd eu bod yn anghytuno â'r penderfyniad, yn hytrach nag oherwydd gwallau cyfreithiol neu wallau yn y broses.
48. Byddai defnyddio'r dull ar sail teilyngdod yn golygu bod modd cyflwyno ystod eang dros ben o geisiadau i'r Bwrdd Parôl, ac mae'n bosib na fyddai modd ymdopi â nhw. Mae'r Bwrdd Parôl yn gwneud dyfarniadau manwl am lefel risg troseddwr ar sail gwybodaeth ac adroddiadau helaeth, gan ddefnyddio dull ymchwiliol yn hytrach na dull cwbl wrthwynebus. Mae natur y dyfarniadau hyn yn golygu na fydd pawb yn cytuno â phob penderfyniad a wneir gan y panel.

Ond ni ddylai hynny ynddo'i hun fod yn rheswm i gychwyn proses ailystyried - dylid cyfyngu hynny i achosion lle mae gwallau sylweddol yn y broses gwneud penderfyniadau, neu os oes methiannau yn y broses. Felly, rydym ni o'r farn nad yw dull sy'n llwyr seiliedig ar deilyngdod yn ymarferol ar hyn o bryd.

49. O ganlyniad, rydym ni'n bwriadu mabwysiadu mecanwaith ailystyried fewnol ar gyfer y Bwrdd Parôl, sydd â throthwy tebyg i'r un ar gyfer yr adolygiad barnwrol ond gyda pharmedrau ehangach. Rydym ni'n credu y byddai defnyddio meini prawf fframwaith cyfreithiol y mae llawer o bobl yn ei ddeall a'i dderbyn yn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr gymryd rhan yn y broses.
50. Bydd y Bwrdd Parôl yn gallu cynnig rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer ceisiadau ailystyried ehangach.
51. Rydym wedi ystyried y sail a ddefnyddir mewn nifer o fecanweithiau apelio eraill, a'r rheini a ddefnyddir ym mhroses parôl awdurdodaethau rhyngwladol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):
 - a. apelïadau i'r Uwch Dribiwnlys o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf⁵
 - b. proses apelio Gwasanaeth Eryl y Goron⁶
 - c. y cynllun Dedfrydau Rhy Garedig⁷
 - d. y broses sydd ar waith yng Nghanada a Seland Newydd, a rhai taleithiau penodol yn Awstralia⁸.
52. Rydym yn bwriadu defnyddio seiliau tebyg i'r rheini a ddefnyddir i apelio yn erbyn penderfyniad gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr Uwch Dribiwnlys, sef bod rhaid i bwynt cyfreithiol godi o'r penderfyniad.
53. Dyma restr o enghreifftiau sydd wedi cael eu sefydlu'n bwyntiau cyfreithiol:
 - a. wedi gwneud canfyddiadau afresymegol ar faterion a oedd yn berthnasol i'r canlyniad
 - b. wedi methu â rhoi rhesymau dros ganfyddiadau ar faterion perthnasol
 - c. wedi methu â phenderfynu ynghylch safbwyntiau neu ffeithiau am faterion perthnasol a oedd yn gwrthdaro
 - d. wedi rhoi pwys ar faterion amherthnasol, neu heb roi sylw i ystyriaethau perthnasol
 - e. wedi gwneud camgyfeiriad cyfreithiol perthnasol ar unrhyw fater perthnasol
 - f. wedi gwneud cyflawni anghysondeb gweithdrefnol a allai wneud gwahaniaeth i ganlyniad neu degwch yr achos
 - g. wedi gwneud camgymeriad ynghylch ffaith berthnasol y gellid ei phrofi gyda thystiolaeth wrthrychol ac annadleuol, pan nid yr apelydd oedd yn gyfrifol am y camgymeriad, a phan fydd y ffaith bod camgymeriad wedi'i wneud wedi arwain at annhegwch.⁹
54. Rydym ni'n credu bod y seiliau hyn yn darparu sail sy'n hydrin ac yn ddigon eang ar gyfer y mecanwaith ailystyried, ac yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen i herio a'r angen i adael i'r Bwrdd Parôl fwrw ymlaen â'i waith craidd.

⁵ <https://www.judiciary.gov.uk/publication-jurisdiction/first-tier-tribunal/>.

⁶ https://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_right_to_review/.

⁷ <https://www.gov.uk/government/news/unduly-lenient-sentence-scheme-ensuring-justice-for-victims-of-crime-and-their-families--2>.

⁸ Mae ein dadansoddiad o'r systemau sydd ar waith yn yr awdurdodaethau eraill hyn yn dangos bod y rhesymau dros wneud apêl neu adolygiad yn seiliedig yn fras ar y seiliau ar gyfer gwneud adolygiad barnwrol.

⁹ Yn seiliedig yn bennaf ar *R (Iran) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref [2005] Llys Apêl Cymru a Lloegr, Sifil 982*.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw mecanwaith ailystyried a gyflwynir roi ystyriaeth i seiliau tebyg i'r rheini a ddefnyddir mewn adolygiad barnwrol?

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno bod y sail a ddefnyddir yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnig paramedrau defnyddiol ar gyfer y sail dros fecanwaith ailystyried?

Sut gallwn ni sicrhau bod y mecanwaith newydd yn dryloyw?

55. Mae Adolygiad y Llywodraeth o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn cyflwyno newidiadau, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael crynodeb o'r rhesymau dros benderfyniadau'r Bwrdd Parôl ynghylch rhyddhau troseddwr. Bydd yr esboniad hwn hefyd ar gael i bobl eraill os bydd y Bwrdd Parôl o'r farn bod hyn yn briodol. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy o wybodaeth ar gael nag sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y rhesymau sy'n sail i benderfyniadau'r Bwrdd Parôl.
56. Pan fydd y mecanwaith ailystyried newydd yn berthnasol, bydd gwybodaeth am y rhesymau sy'n sail i benderfyniadau ar gael ar ôl penderfyniad dros dro. Bydd hyn yn golygu bod modd cyflwyno ceisiadau mwy gwybodus ar gyfer ailystyried. Mae'r broses o wneud y system parôl yn fwy tryloyw yn daith, ac ar ôl gwreiddio'r newidiadau hyn, rydym ni'n credu y bydd yn bosib gwneud rhannau eraill o'r system yn fwy tryloyw hefyd.
57. Pan fydd pryderon dilys am benderfyniad cychwynnol, mae'n bwysig bod y broses ailystyried ddilynol yn agored ac yn dryloyw. Rydym yn rhagweld y byddai'r mecanwaith newydd dan arweiniad barnwr, a byddai mor agored a thryloyw â phosib. Gall gynnwys gwneud gwrandawiadau'n agored i'r cyhoedd, a rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd am aelodau'r panel sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.
58. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn cael cydbwysedd rhwng tryloywder a'r angen i ddiogelu preifatrwydd fel y gall troseddwr a thystion sy'n ymddangos gerbron y Bwrdd Parôl fod yn onest mewn gwrandawiadau er mwyn gallu cyfrannu'n briodol at broses asesu risg y Bwrdd Parôl. Heb y gonestrwydd hwn, ni fyddai asesiadau'r Bwrdd yn gallu bod mor drwyadl. Mae'n bwysig hefyd nad yw gwybodaeth breifat am ddioddefwyr yn cael ei rhannu â'r cyhoedd. Yn yr un modd, mae pryderon wedi cael eu lleisio am ryddhau enwau aelodau'r panel ar achosion unigol heb fod trefniadau amddiffyn digonol ar gyfer eu diogelwch a'u deiliadaeth.

Cwestiwn 5

Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at wrandawiadau ailystyried mewn rhai amgylchiadau a darparu rhagor o wybodaeth am benderfyniadau ailystyried, gan wneud yn siŵr hefyd bod y broses yn dal yn gadarn ac yn amddiffyn dioddefwyr?

Cwestiwn 6

Beth arall y gallem ni ei wneud i sicrhau bod y broses ailystyried mor agored a thryloyw â phosib?

Mae'r papur ymgynghori Saesneg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions>

Cydraddoldeb

59. Er mwyn llywio'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ar wahân o'r effeithiau posib.
60. Mae Aseiad o'r Effaith a Datganiad Cydraddoldeb wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Rydym wedi gofyn cwestiwn am gydraddoldeb yn y papur hwn, ac mae wedi'i gynnwys ar y diwedd er mwyn rhoi gwybodaeth gyflawn.

- a. Asesiad o'r Effaith: ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions>
- b. Datganiad Cydraddoldeb: yn sgil ein rhwymedigaethau dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r datganiad hwn yn ystyried effeithiau posib ein cynigion yn unol â'r nodweddion gwarchoddedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r datganiad cydraddoldeb ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions>

61. Rydym yn croesawu sylwadau am gywirdeb a hyd a lled yr effeithiau a nodwyd. Rydym yn croesawu'n arbennig ymatebion gan y rheini sy'n ystyried bod ganddynt nodwedd warchoddedig, neu gan grwpiau buddiant sy'n cynrychioli'r rheini â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr ymatebion a ddaw i law yn cael eu hystyried wrth i'r Llywodraeth benderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

62. Mae Asesiad o'r Effaith yn dangos bod hyn yn debygol o gael effaith ar droseddwr a dioddefwyr yn arbennig:

Troseddwr:

- Ni fydd penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn derfynol nes bydd cyfnod wedi mynd heibio pan oedd modd cyflwyno cais i'r penderfyniad gael ei ailystyried. Mae hyn yn creu amwysedd i'r troseddwr, a gallai arwain at rywffaint o oedi cyn rhyddhau. Dylid lliniaru hyn gymaint â phosib.
- Gallai'r oedi yn sgil hynny effeithio ar les carcharor/troseddwr, a'i ymddygiad o bosib.

Dioddefwyr:

Ni fydd penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn cael eu nodi'n derfynol nes bydd cyfnod wedi mynd heibio pan oedd modd cyflwyno cais i'r penderfyniad gael ei ailystyried. Mae hyn yn creu amwysedd i'r dioddefwr, ac yn arwain at oedi cyn cael cadarnhad o ganlyniad Gwrandawriad y Bwrdd Parôl. Dylid lliniaru hyn gymaint â phosib.

63. Mae'r goblygiadau o ran costau ac adnoddau wedi'u nodi isod:

- a. Mae'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ac adnoddau ychwanegol i'r Bwrdd Parôl ar y dechrau wrth iddo ddelio â'r ceisiadau cychwynnol, a neilltuo adnoddau ar gyfer yr archwiliad trothwy a'r gwaith yn sgil hynny.
- b. Mae'n bosib y bydd goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â lle mewn carchardai gydag:
 - i. oedi wrth brosesu achosion, a hynny'n effeithio wedyn ar brydlondeb gwrandawriadau;
 - ii. penderfyniadau'r Bwrdd Parôl ddim yn cael eu nodi'n derfynol nes bydd cyfnod wedi mynd heibio pan oedd modd cyflwyno cais i'r penderfyniad gael ei ailystyried, a fydd yn arwain at aros yn hirach yn y carchar.
- c. Gallai'r cynigion gael effaith negyddol anfwriadol ar bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus/darparwyr yn y trydydd sector sy'n cynnig help a chefnogaeth adsefydlu ac ailsefydlu i garcharorion ar ôl cael eu rhyddhau. Gallai oedi yn y broses effeithio arnyn nhw, ac felly ar eu gallu i gynllunio ar gyfer rhyddhau/cynnig cymorth. Dylid lleihau hyn gymaint â phosib.

64. Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i atodi. Byddem yn falch iawn o gael sylwadau ar yr Asesiad o'r Effaith a'r cwestiynau penodol sydd ynddo.

Cwestiynau ynghylch Cydraddoldeb

Cwestiwn 7

Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori i'r canlynol:

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas Cyfreithwyr Carchardai

Cyngor y Bar

Canolfan Astudiaethau Troseddol a Chyfiawnder

Y Ganolfan dros Gyfraith Cyhoeddus

Cyngor Barnwyr Rhanbarth EM

Cymdeithas y Bar Troseddol

Yr Adran Iechyd

Arolygiaeth Carchardai EM

Arolygiaeth Prawf EM

Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau

Ysgrifenyddiaeth y Byrddau Monitro Annibynnol

Athrofa dros Ymchwil Polisi Troseddol

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

Justice

Cymdeithas Clercod yr Ynadon

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Grŵp Gweithredu Cyfreithiol

Liberty

Comisiynydd Dioddefwyr Llundain

Yr Arglwydd Brif Ustus

Cymdeithas yr Ynadon

NACRO

Cymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Prawf

Cymdeithas Cenedlaethol y Dioddefwyr

Bwrdd Parôl Yr Alban

Comisynydd Parôl Gogledd Iwerddon

Cymdeithas y Llywodraethwyr Carchardai

Cymdeithas y Swyddogion Carchardai
Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
Gwasnaeth Cyngori i Garcharorion
Cymdeithas Prif Swyddogion y Gwasanaeth Prawf
Cymdeithas Argyfwng Trais - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Y Twrnai Cyffredinol a'r Cyfreithiwr Cyffredinol
Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
Y Bwrdd Parôl dros Gymru a Lloegr
Y Comisiynydd Dioddefwyr
Cymorth i Ddioddefwyr
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr na'n gyfyngedig a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

Holiadur

Mae'r papur ymgynghori hwn yn casglu barn am faterion allweddol sy'n ymwneud â natur derfynol penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, ac a ddylai penderfyniadau gael eu hailystyried.

Os nad ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o'n canfyddiadau, eglurwch pam a pha ddarpariaeth ychwanegol neu ddarpariaeth amgen rydych chi'n credu ddylai fod ar gael.

- 1. Ydych chi'n cytuno y dylai penderfyniadau'r Bwrdd Parôl i ryddhau carcharor, neu i wahardd carcharor rhag cael ei ryddhau, fod yn rhan o'r mecanwaith ailystyried arfaethedig?**
- 2. Pa unigolion neu grŵp ddylai allu gwneud cais i benderfyniad gael ei ailystyried?**
- 3. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw mecanwaith ailystyried a gyflwynir roi ystyriaeth i seiliau tebyg i'r rheini a ddefnyddir mewn adolygiad barnwrol?**
- 4. Ydych chi'n cytuno bod y sail a ddefnyddir yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnig paramedrau defnyddiol ar gyfer y sail dros mecanwaith ailystyried?**
- 5. Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at wrandawiadau ailystyried mewn rhai amgylchiadau a darparu rhagor o wybodaeth am benderfyniadau ailystyried, gan wneud yn siŵr hefyd bod y broses yn dal yn gadarn ac yn amddiffyn dioddefwyr?**
- 6. Beth arall y gallem ni ei wneud i sicrhau bod y broses ailystyried mor agored a thryloyw â phosib?**
- 7. Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig? Rhowch resymau.**
- 8. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau.**

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion amdanoch chi'ch hun.

Enw llawn

Teitl swydd neu ym mha
rinwedd rydych yn ymateb i'r
ymarfer ymgynghori hwn (e.e.
aelod o'r cyhoedd ac ati)

Dyddiad

Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n
berthnasol):

Cyfeiriad

Cod post

Os hoffech i ni gydnabod ein bod (ticiwch y blwch)
wedi cael eich ymateb, ticiwch y
blwch hwn

Y cyfeiriad y dylid anfon y
gydnabyddiaeth iddo, os yw'n
wahanol i'r uchod

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a chrynhof'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn
eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Gorffennaf 2018 i:

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Tîm Adolygu'r Bwrdd Parôl
Post Point 4.22
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

E-bost: paroleboardreview@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Mae rhagor o gopiâu papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk>.

Gellir gwneud cais am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn gan **paroleboardreview@justice.gov.uk**

Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn hydref 2018. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosib y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a roddwch i ni yn gyfrinachol, cofiwch, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych chi'n credu bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gallwn gadw cyfrinachedd dan yr holl amgylchiadau. Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>